

TACHWEDD 2021

AROLWG DEFNYDDWYR GWASANAETH  
CYMORTH TAI GWENT 2021  
FFOCWS AR DECHNOLEG



## Cyflwyniad

Cynhaliwyd arolwg blynyddol defnyddwyr gwasanaethau Cymorth Tai Gwent ers pum mlynedd erbyn hyn. Mae'n ychwanegu at yr ystod eang o ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu sy'n rhan o broses cynllunio anghenion strategol a chynhwysiant a gynhelir yn flynyddol gan y Timau Grant Cymorth Tai a daeth yn elfen bwysig a sefydlog o'r broses mapio anghenion. Mae'r awdurdodau lleol yn yr ardal yn gyfrifol am sicrhau yr ymgysylltir gyda'r rhai sydd wedi defnyddio gwasanaethau.

Mae'r rhai sydd angen iddynt ddefnyddio gwasanaethau a gyllidir drwy'r Grant Cymorth Tai yn dod o ystod eang o gefndiroedd ac yn derbyn cefnogaeth ar amrywiaeth o wahanol faterion; mae'r gefnogaeth a gânt yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn anelu i helpu pobl i sicrhau a chynnal tai cynaliadwy ac i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i'w helpu i ffynnu. Mae'r Grant Cymorth Tai yn dymuno gweld:

***"Cymru lle nad oes neb yn ddigartref a fod gan bawb gartref diogel lle gallant ffynnu a byw bywyd bodlon, actif ac annibynnol".***

Rhoddir llawer o bwysigrwydd ar ymgysylltu gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau fel rhan o broses asesiad gynhwysol a strategol Gwent. Caiff yr arolwg blynyddol o ddefnyddwyr gwasanaeth ei hyrwyddo drwy wefan [www.gwenthousingsupport.co.uk](http://www.gwenthousingsupport.co.uk) a chaiff darparwyr gwasanaeth eu hannog i hyrwyddo a galluogi'r bobl a gefnogant i lenwi'r holiadur.

Mae'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn arbenigwyr yn y gwasanaethau hyn, maent wedi byw a'u profi a nhw sydd yn y sefyllfa orau i wybod beth sy'n gweithio, beth nad yw'n gweithio a pha welliannau sydd eu hangen. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r ymatebion a gafwyd i arolwg blynyddol ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth.

Roedd yr anawsterau a gaiff pobl yng nghyswllt eu sgiliau digidol a/neu ddiffyg mynediad i dechnoleg yn un o'r materion clir a amlygwyd yn arolwg 2020. Rhoddir trosolwg yma i rai o'r ymatebion o arolwg 2020:

*"Nid wyf yn dda iawn gyda technoleg felly rydw i wedi fy nghyfyngu i alwadau ffôn/negeseuon testun"*

*"Roedd yn anodd iawn i ddefnyddio technoleg gan nad oes gen i ffôn symudol"*

*"Nid wyf erioed wedi defnyddio ffôn. Roeddwn yn falch bod y staff wedi dod mewn wyneb i wyneb"*

"Nid wyf yn deall y rhyngwrwyd"  
"Rwy'n methu darllen nac ysgrifennu felly fedrwn i ddim wneud galwadau rhithiol gan nad oes gen i ffôn i fy ngalluogi i wneud hynny"  
"Fedrwn i ddim defnyddio'r ap wyneb ar y ffôn"  
"Does gen i ddim camera ar fy ffôn ond mae gen i ffôn"  
"Nid oes gennyf ffôn clyfar, nid wyf yn eu deall"  
"Nid wyf yn dda ar gyfrifiadur"  
"Does gen i ddim band eang ac yn methu rhoi llawer o gredyd ar fy ffôn"  
"Does gen i ddim ffôn clyfar ond roeddwn yn edrych ymlaen at fy ngalwadau ffôn wythnosol"

Wrth symud ymlaen, bydd angen i wasanaethau cymorth barhau i weithredu ar sail hybrid. Mae ymgysylltu gyda phobl wyneb i wyneb a thrwy dechnoleg yn rhoi mwy o gyfleoedd i gefnogi pobl mewn amrywiaeth ehangach o ffyrdd. Mae gwasanaethau eraill y mae pobl angen mynediad iddynt tebyg i fudd-daliadau, bancio a gwasanaethau iechyd yn symud ymhellach tuag at weithredu ar-lein. Cafodd hyn eisoes effaith enfawr ar y bobl yr ydym yn gweithio gyda nhw, yn nhermau iddynt fedru cael mynediad mewn modd amserol i'r gwasanaethau maent eu hangen a gallai diffyg sgiliau yn y maes hwn arwain at ddiffyg annerbyniol o fynediad ac allgau digidol fydd yn parhau pan ddaeth cefnogaeth i ben.

Soniwyd am gynyddu mynediad i dechnoleg ddigidol a mwy o gynhwysiant digidol fel maes gweithredu allweddol yn y cynllun Gwaith Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol. Ynghyd â gofyn i bobl sut y teimlent am y gwasanaeth a gawsant, fe wnaeth yr arolwg hwn ein galluogi i edrych yn ddyfnach i ddeall defnydd defnyddwyr gwasanaeth o dechnoleg a'r rhwystrau sy'n bodoli. Defnyddir y dadansoddiad a gafwyd o'r arolwg i benderfynu ar y camau nesaf yn nhermau'r gwaith hwn.

Mae timau Grant Cymorth Tai Gwent wedi cytuno ar y 7 argymhelliad a fanylir yng nghefn yr adroddiad hwn a symudir ymlaen â nhw fel rhan o gynlluniau gwaith 2022-2023.

Cafodd yr holiadur ei gylchredeg yn eang yn ystod mis Gorffennaf i fis Medi 2021 a gofynnodd y cwestiynau dilynol:

- C1 Ym mha ardal yng Ngwent ydych chi'n byw?
- C2 Pa fath o wasanaeth ydych chi'n ei dderbyn?
- C3 Sut gwnaethoch chi gael cymorth yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf?
- C4 Pa mor hapus ydych chi gyda'r cymorth a gawsoch dros yr ychydig fisoedd diwethaf?
- C5 A oes unrhyw beth a fedrai wedi bod yn well?

- C6 Pa eitemau electronig ydych chi'n berchen arnynt neu'n eu defnyddio i gael mynediad i gymorth a gwasanaethau eraill ar-lein?
- C7 Ydych chi wedi cael unrhyw help i gael mynediad i offer technoleg gwybodaeth?
- C8 Pa offer technoleg gwybodaeth ydych chi wedi cael help i gael mynediad iddo?
- C9 Pwy wnaeth eich helpu i gael mynediad i'r offer technoleg gwybodaeth yma?
- C10 A yw'ch mynediad ar-lein wedi gwella yn y flwyddyn ddiwethaf?
- C11 A oes unrhyw rwystrau yn eich atal rhag mynd ar-lein? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)
- C12 Pa fath o bethau ydych chi'n cael mynediad iddynt/yr hoffech gael mynediad iddynt ar-lein? (ticiwch bob un perthnasol)
- C13 Wrth i ni symud allan o gyfyngiadau coronafeirws, rhagwelwn y bydd ffyrdd newydd o weithio (e.e. gwasanaethau ar-lein) yn parhau. Beth arall fyddai'n eich helpu i fynd ar-lein? (ticiwch bob un perthnasol)
- C14 Os gallech gael mynediad i hyfforddiant, sut fyddai orau gennych ei dderbyn? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)
- C15 Os oedd gennych fynediad i offer TG, fydddech chi'n defnyddio hwn i gael cymorth neu fyddai'n dal i fod yn well gennych gael galwadau ffôn neu gyfarfodydd wyneb i wyneb?
- C16 A hoffech wneud unrhyw sylwadau eraill?

## **Dadansoddiad o Gwestiynau'r Arolwg**

### **Rhan 1 Bodlonrwydd cwsmeriaid gyda'r gwasanaethau a gafwyd**

Cafodd yr arolwg ei rannu yn ddau; roedd rhan gyntaf yr arolwg yn canolbwyntio ar ble mae pobl yn byw, pa fath o wasanaeth a dderbyniant a pha mor fodlon ydynt gyda'r gwasanaeth hwnnw. Fe wnaeth 182 o bobl lenwi'r arolwg i roi eu sylwadau, gan roi cyfoeth o wybodaeth y gellir ei ddefnyddio ar gyfer dibenion cynllunio yn y dyfodol.

#### **C1. Ym mha ardal yng Ngwent ydych chi'n byw?**

Cafwyd cyfanswm o 262 ymateb i'r holiadur gyda phobl o'r holl awdurdodau lleol yng Ngwent wedi cymryd rhan.


Cynhaliwyd yr ymgynghoriad drwy fisoedd yr haf a chafodd ei ymestyn i redeg drwy fis Medi i geisio annog mwy o ymgysylltu.

Mae tua 7000 o bobl yn derbyn cymorth ar draws Gwent ar unrhyw un amser o wasanaethau a gyllidir drwy'r Grant Cymorth Tai; mae canfod ffyrdd i annog pobl i gymryd rhan yn yr arolwg yn parhau i fod yn ystyriaeth bwysig wrth symud i'r dyfodol.

## Argymhelliad 1

- *Deall y rhwystrau i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad i gael ei ystyried fel rhan o arolwg y flwyddyn nesaf.*

### C2. Pa fath o wasanaeth ydych chi'n ei dderbyn? (cyfanswm =262 ymateb)




Roedd y nifer fwyaf o bobl a ymatebodd yn derbyn cymorth fel y bo angen neu gymorth tenantiaeth h.y. cymorth a gyflenwir yn eu cartref eu hunain. Roedd y rhai a ymatebodd i ddweud eu bod yn byw mewn tai â chymorth yn cynnwys y rhai sy'n byw mewn llety gyda chefnogaeth ar y safle tebyg i hostelau a darpariaeth lloches. Daeth y nifer leiaf o ymatebion gan bobl yn byw mewn llety dros dro fyddai'n cynnwys gwely a brecwast a llety argyfwng eraill. Y nifer fwyaf o wasanaethau a gomisiynir ar hyn ar draws Gwent yw gwasanaethau cymorth fel y bo'r angen.

## Argymhelliad 2


- *Dylai cynyddu nifer yr ymatebion gan bob math o ddarpariaeth gwasanaeth fod yn gam gweithredu a chanolbwyntio ar arolwg y flwyddyn nesaf.*

### C3. Sut gwnaethoch chi gael cymorth yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf? (cyfanswm = 281 ymateb)



Dywedodd pobl a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod yn parhau i dderbyn cymorth yn defnyddio dulliau traddodiadol o ymgysylltu o naill ai gymorth wyneb i wyneb neu ffôn; mae'r niferoedd yn debyg i ymatebion cyffelyb a dderbyniwyd i arolwg y llynedd gydag ychydig iawn yn derbyn cymorth drwy alwadau rhithwir.

**C4. Pa mor hapus ydych chi gyda'r cymorth a gawsoch dros yr ychydig fisoedd diwethaf? (cyfanswm = 252 ymateb)**



Dywedodd 246 o bobl a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod naill ai'n hapus neu'n hapus iawn gyda'r cymorth a gawsant yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf.

**C5. A oes unrhyw beth a allai fod wedi bod yn well? (cyfanswm = 146 ymateb)**

Atebodd 129 o bobl 'na' neu roi adborth cadarnhaol. Dyma enghreifftiau o'r sylwadau a gafwyd:

|                                                                                         |                                                                                                  |                                                                                         |                                                                 |
|-----------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------|
| Na. Mae fy ngweithiwr cymorth yn ymweld â fi bob wythnos ac yn barod iawn i gynorthwyo  | Na, caiff popeth yr ydym wedi ei drafod ei gynllunio, rydyn ni'n gweithio trwodd                 | Na, mae'r holl dim yn arbennig***** wedi gwneud yr hyn a fu'n brofiad trawmatig yn haws | Mae'r holl staff yn broffesiynol iawn, cyfeillgar ac agos atoch |
| Na, buoch yn gymorth mawr ac wedi cadw mewn cysylltiad a fy helpu pan oeddwn angen help | Mae gweithwyr cymorth sy'n rhoi cymaint o gymorth i fi yn haeddu mwy o gydnabyddiaeth a gwobr    | Rwy'n hapus gyda'r cymorth a gaf gan *****                                              | Rwy'n hapus gyda phopeth ar hyn o bryd                          |
| Mae'n fy helpu gyda phopeth rwyf ei angen, a fedrwn i ddim bod yn hapusach. Diolch.     | Mae fy ngweithiwr cymorth wedi bod yn wych yn ystod y pandemig, mae'n fy hysbysu am bopeth       | Hapus gyda phopeth ar hyn o bryd                                                        | Na, dim o gwbl, yn hapus iawn gyda'r cymorth                    |
| Na, rydych chi wedi mynhd yr ail filltir hefo popeth                                    | Amhosibl gwella gwasanaeth perffaith! Rydwi mor ddiolchgar am y safonau uchel a gefais gan ***** | Methu gwella dim, gwasanaeth ardderchog                                                 | Dim - mae fy ngweithiwr cymorth yn ardderchog                   |

## Rhoddodd 15 o bobl awgrymiadau ar gyfer gwella:

Soniodd 5 o bobl am gyfathrebu gyda 2 yn dweud bod angen gwella cyfathrebu am y gwaith a fyddai'n digwydd yn eu prosiect a dywedodd 1 person nad oedd wedi cael eu hysbysu am gynnydd gan eu gweithiwr cymorth. Dywedodd 2 o bobl fod angen gwell hysbysebu gan na wyddent fod gwasanaethau o'r fath ar gael.

Dywedodd 4 o bobl yr hoffent gymorth wyneb i wyneb gan ddweud yr hoffent naill ai gael mwy o gymorth wyneb i wyneb ac ar sail fwy rheolaidd e.e. wythnosol

Dywedodd 2 o bobl fod angen proses atgyfeirio gyflymach

Dywedodd 2 o bobl yr hoffent fwy o gymorth neu fwy o gymorth gan eu gweithiwr cymorth neilltuol a gafodd eu galw yn aml i lanw mewn man arall


Dywedodd 1 person yr hoffai fwy o ddigwyddiadau

Dywedodd 1 person eu bod eisiau i fwy o wasanaeth fod ar gael er mwyn symud yn nes at berthnasau

## Rhan 2 Defnyddio Technoleg


Roedd ail ran yr arolwg yn canolbwyntio ar y defnydd o dechnoleg:

**C6. Pa eitemau electronig ydych chi'n berchen arnynt neu'n eu defnyddio i gael mynediad i gymorth neu wasanaethau eraill ar-lein (cyfanswm = 409 ymateb).**




Roedd dau-draean y bobl a gymerodd ran yn yr arolwg yn berchen ar ffôn clyfar. Nid oedd 7% o'r bobl a gymerodd ran yn yr arolwg yn berchen ar naill ai ffôn, llechen na chyfrifiadur/gliniadur a dywedodd 9% o'r bobl a gymerodd ran nad ydynt yn defnyddio unrhyw wasanaethau ar-lein.

**C7. Ydych chi wedi cael help i gael offer TG? (253)**



**C8. Pa offer TG a gawsoch chi help i'w cael? (72)**



**C9. Pwy wnaeth eich helpu i gael yr offer TG yma? (66 ymateb)**

GWEITHIWR CYMORTH / TEULU 63


YSGOL 2

LLYFRGELL 1

**Argymhelliad 3**

- *Dylid gofyn i bob defnyddiwr gwasanaeth am eu mynediad i dechnoleg fel rhan o'r broses cynllunio cymorth.*


**C10 A yw'ch mynediad ar-lein wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf? (259 ymateb)**



Ni fu unrhyw welliant yn eu mynediad ar-lein ar gyfer dau-draean y bobl. Ar gyfer ychydig dan draean o bobl, roedd eu mynediad wedi gwella ac ar gyfer 5% o bobl roedd eu mynediad ar-lein wedi gwaethygu.



**C11. A oes unrhyw rwystrau yn eich atal rhag mynd ar-lein? (ticiwch bob un perthnasol) (364 ymateb)**



Nid oedd unrhyw rwystrau i fynd ar-lein ar gyfer 44% o'r bobl a gymerodd ran yn yr arolwg. Fodd bynnag, mae rhwystrau eang yn dal i atal pobl rhag cael eu cynnwys yn ddigidol, gyda rhesymau yn cynnwys diffyg dealltwriaeth, fforddiadwyedd a mynediad i offer. Gofynnwyd i'r rhai a dociodd "arall" ar y cwestiwn hwn i roi mwy o wybodaeth drwy'r cwestiwn dilynol:

**C11a. A oes unrhyw rwystrau yn eich atal rhag mynd ar-lein? Arall - nodwch (24 ymateb)**

Roedd 7 o bobl yn methu mynd ar-lein oherwydd eu cyflyrau iechyd oedd yn cynnwys problemau golwg, awtistiaeth, dyslecsia difrifol, clefyd Huntingdon a chyflyrau iechyd meddwl.

Dywedodd 6 o bobl na fedrent fynd ar-lein oherwydd cysylltiadau Wi-Fi gwael mewn prosiectau oedd yn cynnwys tai â chymorth a llety dros dro; dywedodd rhai fod signal mewn ardaloedd cymunol ond nid yn eu hystafelloedd, dywedodd eraill fod y cysylltiad band eang yn eu prosiect yn rhy araf a'u bod yn gorfod prynu mwy o ddata.

Roedd gan 4 o bobl rwystrau oherwydd problemau llythrennedd, methu darllen neu ysgrifennu neu ddiffyg dealltwriaeth ar sut i ddefnyddio technoleg.

Dywedodd 3 o bobl nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn defnyddio'r rhyngwrwyd na gwasanaethau ar-lein.

Dywedodd 1 o bobl fod y gost o brynu offer a thalu am gysylltu yn rhy ddrud.

Dywedodd 1 person fod aros mewn ysbyty yn rhwystr.

Dywedodd 1 person na chaniatawyd iddynt gael ffôn na llechen.

#### Argymhelliad 4

- Dylai defnyddwyr gwasanaeth gydag anghenion ychwanegol yng nghyswllt cynhwysiant digidol e.e. oherwydd problem iechyd corfforol neu iechyd meddwl gael eu cefnogi i gael mynediad i offer neu help addas ar gyfer eu hanghenion a dylai hyn gael ei ddynodi'n glir yn eu cynllun cymorth.


#### Argymhelliad 5

- Mae angen cysylltiadau agosach gyda phrosiectau cynhwysiant digidol ar draws y rhanbarth a gwasanaethau a gyllidir gan Grant Cymorth Tai a dylai timau Grant Cymorth Tai ac awdurdodau lleol hwyluso a chefnogi hyn.

#### Argymhelliad 6

- Dylid adolygu signal a gwasanaethau Wi-Fi mewn prosiectau llety â chymorth a llety dros dro i sicrhau fod y gwasanaeth a'r cryfder signal yn addas ar gyfer diben y dyfodol.


#### C12. Pa fathau o bethau ydych chi'n eu defnyddio/neu fydddech chi'n eu defnyddio ar-lein? (ticiwch bob un perthnasol) (946 ymateb)



Cafwyd 946 ymateb i'r cwestiwn aml-ddewis hwn gan amlygu'r ystod eang o wasanaethau y mae pobl naill ai yn eu defnyddio neu y byddent yn eu defnyddio pe byddent ar-lein. Pan ofynnwyd iddynt pa wasanaethau eraill y maent yn eu defnyddio neu y byddent yn eu defnyddio, rhoddodd 13 o bobl ymatebion ychwanegol yn cynnwys safleoedd rheoli tai tebyg i wasanaethau ailgylchu'r Cyngor, cwmnïau cyfleustod, gwybodaeth ar hunan-ofal a iechyd corfforol a


gweithgareddau hamdden e.e. edrych ar fideos, gwranddo ar gerddoriaeth ac edrych ar safleoedd yn gysylltiedig â'u diddordebau.

**C13. Wrth i ni symud allan o gyfyngiadau coronafeirws, rhagwelwn y bydd rhai o'r ffyrdd newydd o weithio (e.e. gwasanaethau ar-lein) yn parhau. Beth fyddai'n rhoi cymorth pellach i'ch cael ar-lein? (ticiwch bob un sy'n berthnasol) (315 ymateb)**



Nid oedd 42% o'r bobl a lenwodd yr arolwg angen unrhyw help i fynd ar-lein, a dywedodd 25% o bobl a ymatebodd i'r cwestiwn nad oeddent eisiau dysgu sut i fynd ar-lein. Roedd hyfforddiant a mynediad i gyfleusterau yn feysydd lle roedd nifer o bobl eisiau cefnogaeth ac yn ychwanegol roedd mwyafrif llethol y bobl a ddiiodd "arall" i'r cwestiwn hwn angen cymorth i fynd ar-lein oherwydd cyflwr iechyd. I 4 o bobl a lenwodd y cwestiwn, roeddent angen mwy o gymorth gyda'r gost a'r gallu i gael cysylltiad band eang.

**14. Os gallech gael mynediad i hyfforddiant, sut fyddai orau gennych dderbyn hynny? (ticiwch bob un sy'n berthnasol) (192 ymateb)**




Roedd y mwyafrif llethol eisiau derbyn sesiynau personol un i un i ddatblygu eu sgiliau cynhwysiant digidol. O'r rhai a ddiiodd 'arall' i'r cwestiwn yma, nid oedd gan y rhan fwyaf ddiddordeb mewn cael hyfforddiant i fynd ar-lein. Dywedodd un person eu bod yn methu cael mynediad i wasanaethau ar-lein oherwydd eu hanabledd.

### Argymhelliad 7

- Dylid cynnig mynediad i wasanaethau a phrosiectau cynhwysiant digidol i bob defnyddiwr gwasanaeth er mwyn gwella eu sgiliau a datblygu eu dysgu yn y maes hwn a dylai hyn gael ei ddynodi'n glir yn eu cynllun cymorth.

**15. Os byddai gennych fynediad i offer TG, fydddech chi'n defnyddio hyn i gael mynediad i gymorth neu fyddai'n dal i fod well gennych dderbyn galwadau ffôn neu gyfarfodydd wyneb i wyneb? (214 ymateb)**



Roedd yn glir o'r atebion a gafwyd fod yn well gan bobl y dulliau mwy traddodiadol o gymorth naill ai wyneb i wyneb neu dros y ffôn neu gyfuniad.

### C16. A oes unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu gwneud?

Derbyniwyd 74 o sylwadau ychwanegol i'r cwestiwn hwn yn bennaf yn cyfeirio at y tri maes dilynol:

- Adborth cadarnhaol
- Anawsterau yn defnyddio technoleg a mynediad i dechnoleg
- Ffaffrio derbyn cymorth wyneb i wyneb

## Adborth Cadarnhaol



## Anawsterau yn defnyddio technoleg a mynediad i dechnoleg

|                                                                         |                                                                                                          |                                                                                        |
|-------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------|
| "Rwy'n cael technoleg yn galed iawn, rwy'n methu hyd yn oed dynnu llun" | "Rwy'n methu gweld pam fod yn rhaid i bopeth fod ar-lein, rwy'n hoffi siarad gyda pherson wyneb i wyneb" | "Dwyf i ddim yn ymddiried mewn gwasanaethau bancio a rhyngwyd gyda'r holl sgamiau yma" |
| "Mae fy mab yn defnyddio'r rhyngwyd a dwyf i ddim eisiau gwneud hynny"  | "Gan na chefais fy magu gyda technoleg, mae'n well gen ac rwy'n ei chael yn haws cysylltu gyda phobl"    | "Mae angen gwell wifi yn yr hostel sydd ar gael ym mhob ystafell"                      |
| "Mae gennyf anawsterau dysgu felly byddwn angen hyfforddiant sylfaenol" | "Rwy'n dda am ddefnyddio'r rhyngwyd ond weithiau angen cymorth gan fy ngweithiwr cymorth"                | "Mynediad gwell i wifi a chyfrifiadur neu liniadur ar gael"                            |

## Argymhellion

1. Deall y rhwystrau i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad i gael ei ystyried fel rhan o arolwg y flwyddyn nesaf.
2. Dylai cynyddu nifer yr ymatebion gan bob math o ddarpariaeth gwasanaeth fod yn gam gweithredu a chanolbwyntio ar arolwg y flwyddyn nesaf.
3. Dylid gofyn i bob defnyddiwr gwasanaeth am eu mynediad i dechnoleg fel rhan o'r broses cynllunio cymorth.
4. Dylai defnyddwyr gwasanaeth gydag anghenion ychwanegol yng nghyswllt cynhwysiant digidol e.e. oherwydd problem iechyd corfforol neu iechyd meddwl gael eu cefnogi i gael mynediad i offer neu help addas ar gyfer eu hanghenion.
5. Mae angen cysylltiadau agosach gyda phrosiectau cynhwysiant digidol sydd ar gael ar draws y rhanbarth a gwasanaethau a gyllidir gan y Grant Cymorth Tai a dylai timau Grant Cymorth Tai ac awdurdodau lleol hwyluso a chefnogi hyn.
6. Dylid adolygu signal a gwasanaethau wi-fi mewn prosiectau llety â chymorth a llety dros dro i sicrhau fod y gorchudd a chryfder y signal yn addas ar gyfer dibenion y dyfodol.
7. Dylai pob defnyddiwr gwasanaeth gael cynnig mynediad i wasanaethau cynhwysiant digidol i wella eu sgiliau a datblygu eu dysgu yn y maes hwn a dylid dynodi hyn yn glir yn eu cynllun cymorth.

**Hoffai Timau Cymorth Tai Gwent a Grŵp Cydweithio Cymorth Tai Rhanbarthol ddiolch i bawb a roddodd amser i lenwi'r arolwg blynyddol.**

**Mae 7 argymhelliad clir y byddir yn symud ymlaen â nhw a'u rhoi ar waith fel canlyniad i bobl gymryd rhan a dweud wrthym beth oedd eu barn fel rhan o Arolwg Defnyddwyr Gwasanaeth 2021.**

**"Fe ddywedoch chi - Fe wnawn ninnau!"**

